




Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol —  
National Centre  
for Learning Welsh

# Newyddion Dysgu Cymraeg Learn Welsh News

Gwanwyn  
Spring  
2025



[dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru)  
[learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru)



# **Neges gan Dona Lewis**

## **Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Bob blwyddyn, mae'r Ganolfan yn falch o gefnogi miloedd o bobl o bob oedran a chefndir i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Dan ni'n cynllunio'n strategol i ddarparu ystod o gyfleoedd, ac mae ein gwaith yn esblygu. Bellach, yn ogystal â'n holl gyrsiau cymunedol, mae rhagleni penodol ar gyfer pobl ifanc, y gweithlu addysg, sectorau amrywiol megis lechyd a Gofal, a theuluoedd.

Mae cyrraedd cynulleidfaeodd newydd a chynyddu'r niferoedd sy'n mwynhau'r Gymraeg yn flaenorriaeth barhaus wrth i ni gefnogi polisi Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Os ydych chi eisiau helpu, neu os ydych chi eisiau clywed mwy am ein gwasanaethau – mae croeso i chi gysylltu â mi.

Cofion,

**Dona**



## **A word from Dona Lewis**

### **Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh**

Every year, the Centre is proud to support thousands of people of all ages and backgrounds to learn and use the Welsh language.

Our work is evolving, and we plan strategically to provide a wide range of opportunities for our learners. In addition to our courses in the community, there are specific programmes for young people, the education workforce, sectors such as Health and Social Care, and families.

Reaching new audiences and increasing the numbers who enjoy the Welsh language is a continuing priority as we support the Welsh Government's 'Cymraeg 2050' policy.

If you'd like to help, or find out more about our services, you're welcome to contact me.

Best wishes,

**Dona**



# Cyfathrebu

Dan ni'n cynyddu ein presenoldeb ar LinkedIn – dilynwch ni ar y llwyfan yma i gael y newyddion diweddaraf am ein gwaith: [LinkedIn: Dysgu Cymraeg | Learn Welsh](#)

# Communication

We're expanding our presence on LinkedIn – follow us on this platform to get the latest news about our work: [LinkedIn: Dysgu Cymraeg | Learn Welsh](#)



## Mwy am y CEFR

Mae arbenigwyr dysgu a chaffael iaith y Ganolfan wedi llunio cwricwlwm cenedlaethol sy'n rhan greiddiol o lwyddiant ein dysgwyr a siaradwyr newydd. Mae'r cwricwlwm yn seiliedig ar y 'CEFR' - Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer leithoedd (Common European Framework of Reference for Languages) – ac mae'n gosod un llwybr clir i ddysgu'r iaith. Darllenwch ein blog am fwya o fanylion: [Y CEFR: Llwybr clir i ddysgu Cymraeg | Dysgu Cymraeg](#)

## More on the CEFR

Our national curriculum, which has been developed by the Centre's language learning and acquisition experts, is central to the success of our learners and new speakers. The curriculum is based on the Common European Framework of References for Languages (CEFR), which sets out a clear pathway to learning Welsh. To find out more about the CEFR, read our blog: [The CEFR: A clear pathway to learning Welsh | Learn Welsh](#)

# Pobl ifanc

Dros y misoedd nesaf byddwn yn cefnogi pobl ifanc ardaloedd Abertawe a Phort Talbot i gryfhau eu sgiliau Cymraeg, a magu hyder i ddefnyddio'r iaith. Bydd cyrsiau hunan-astudio ar-lein ar gael, a rhai dan arweiniad tiwtor, wrth i ieuengtiaid yr ardal baratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr. Bydd y Ganolfan yn dathlu llwyddiannau dysgwyr ifanc ganol wythnos yn yr Eisteddfod, pan fydd Medal y Dysgwyr a Medal Bobi Jones yn cael eu gwobrwyd. Mae mwy o wybodaeth am ddarpariaeth eang y Ganolfan ar gyfer pobl ifanc ar gael trwy ddilyn y ddolen nesaf:

[Cymraeg i Bobl Ifanc | Dysgu Cymraeg](#)

# Young people

Over the coming months, we'll be supporting young people in the Swansea and Port Talbot areas to strengthen their Welsh language skills, and build confidence to use the language. Both online self-study courses and tutor-led courses will be available, as the young people of the area prepare for the Dur a Môr Urdd Eisteddfod. The Centre will be celebrating the success of young Welsh learners mid-week at the Eisteddfod, when the Learners' Medal and Bobi Jones Medal will be awarded. You can find out more about the Centre's provision for young people by following the next link: [Welsh for Young People | Learn Welsh](#)





## Cymraeg Gwaith Work Welsh

Mae gweithio'n bartneriaethol – asesu anghenion gweithluoedd penodol a llunio hyfforddiant hyblyg, wedi'i deilwra – yn rhan holl bwysig o 'Cymraeg Gwaith', ein cynllun poblogaidd i gryfhau sgiliau dwyieithog gweithleoedd. Dros y misoedd diwethaf, dan ni wedi gweithio gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru, Heddlu Gogledd Cymru a Civil Service Learning i greu cyfleoedd newydd i weithwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Diddordeb i gynyddu sgiliau Cymraeg eich gweithle? Cysylltwch â [swyddfa@dysgucymraeg.cymru](mailto:swyddfa@dysgucymraeg.cymru) neu mae mwy o wybodaeth ar gael trwy ddilyn y ddolen nesaf: [Gwasanaethau Cymraeg Gwaith | Dysgu Cymraeg](#)

Working in partnership, assessing the needs of specific workforces and creating flexible, tailored training, is a vital part of 'Work Welsh', our popular scheme to strengthen bilingual skills in the workplace. Over the past few months, we have worked with the Royal College of Psychiatrists in Wales, North Wales Police and Civil Service Learning to create new opportunities for employees to learn and use the Welsh language.

Interested in increasing your workplace's Welsh skills? Contact [office@learnwelsh.cymru](mailto:office@learnwelsh.cymru) or more information is available by following the next link: [Work Welsh Services | Learn Welsh](#)

# Gweithlu addysg

Mae'r Ganolfan yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer y gweithlu addysg, gyda chyfleoedd dysgu hyblyg ar bob lefel, o ddechreuwyr i godi hyder. Mae nod deublyg i'r cyrsiau hyn, sef yn gyntaf, cryfhau sgiliau Cymraeg aelodau'r gweithlu, ac yn ail, darparu strategaethau a chyngor ar sut i gyflwyno'r Gymraeg ar lawr y dosbarth. Mae athrawon yn dweud bod ein cyrsiau yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'w hyder i siarad Cymraeg a'u gallu i drosglwyddo'r iaith. Darllenwch am rai ohonynt trwy ddilyn y ddolen nesaf: [Newyddion | Dysgu Cymraeg](#)



## Education workforce

The Centre continues to expand its provision for the education workforce, with flexible learning opportunities at all levels, from beginners to confidence building. These courses have a two-fold aim. Firstly, to strengthen the Welsh language skills of the workforce, and secondly, to provide strategies and advice on how to introduce and teach Welsh in the classroom. Teachers tell us our courses make a real difference to their confidence in speaking Welsh and their ability to transfer the language. Read about some of them by following the next link: [News | Learn Welsh](#)

## Cefnogi'r byd llyfrau Cymraeg

Mae llwyddiant y Ganolfan i greu cwricwlwm wedi'i alinio â'r CEFR wedi creu 'sgaffald ieithyddol' sy'n galluogi cyhoeddwyr, awduron ac argraffwyr i gynhyrchu llyfrau ac adnoddau sy'n addas i ddysgwyr ar bob lefel. Mae hyn wedi arwain at alw cynyddol am lyfrau Cymraeg, sydd yn ei dro yn cefnogi siopau llyfrau Cymraeg lleol.

## Supporting Welsh publishing

The Centre's success in creating a curriculum aligned with the CEFR has created a 'linguistic scaffold' which enables publishers, authors, and

printers to produce books and resources suitable for learners at all learning levels. This has led to an increase in demand for Welsh books, which in turn supports local Welsh bookshops.



# Mwynhau Siarad

Mae normaleiddio a hybu defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau hefyd yn rhan bwysig o waith y Ganolfan. Dros y misoedd nesaf byddwn yn cynnal penwythnosau ar gyfer teuluoedd ac oedolion yng ngwersyloedd Llangrannog a Glan-llyn, gyda chyfleoedd i ddilyn gweithdai iaith a chymdeithasu'n Gymraeg. Bydd Gŵyl Ddarllen Amdani yn dathlu'r gyfres lyfrau i ddysgwyr o'r un enw, ac yn annog ein dysgwyr i ddarllen ac ysgrifennu fel ffordd o ymarfer a mwynhau'r Gymraeg.

## Enjoy speaking

Normalising and promoting the use of the Welsh language in our communities is also an important aspect of the Centre's work. Over the next few months, we'll be running weekends for families and adults at the Urdd's residential camps in Llangrannog and Glan-llyn, with opportunities to attend language workshops and socialise in Welsh. We're also organising a virtual reading festival, called 'Gŵyl Ddarllen Amdani' (Amdani Festival of Reading), which celebrates the successful series of books for Welsh learners, 'Amdani'. The festival is an opportunity to encourage our learners to read and write as a way of practising and enjoying the Welsh language.




# Codi Hyder a Defnyddio

Mae cefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg i fagu hyder i ddefnyddio'r iaith wedi bod yn rhan o waith y Ganolfan ers iddi gael ei sefydlu yn 2016, a byddwn yn datblygu'r elfen hon o'n gwaith ymhellach. Yn dilyn llwyddiant cynllun peilot y llynedd yn ardaloedd Conwy a Môn, byddwn yn cynnig hyfforddiant arbenigol

yn genedlaethol eleni. Mae'r Ganolfan hefyd yn cydweithio â'r Mentrau laith i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, ac mae'r cynllun 'Hapus i Siarad', sy'n cyfeirio dysgwyr at fusnesau

lleol ble mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio, yn un enghraifft o'r cydweithio rhwngom. Edrychwn ymlaen at barhau i ymestyn ein partneriaeth gyda'r Mentrau.



## Building confidence and using the language

Supporting Welsh learners and speakers to gain confidence to use the language has been an important part of the Centre's work since it was established in 2016, and we will be developing this element of our work further. Following the

success of last year's pilot scheme in the Conwy and Anglesey areas, we will be offering specialist training nationally this year. The Centre also works in partnership with the Mentrau laith language initiatives to create opportunities

to use the language. The 'Hapus i Siarad / Happy to Talk' scheme, which encourages Welsh learners to use and enjoy their Welsh when visiting local shops and businesses, is one example of the collaboration between us. We look forward to continuing to build our partnership with the Mentrau.

# Y Gair a'r Gân

Mae cynllun 'Y Gair a'r Gân' y Ganolfan yn mynd o nerth i nerth. Bob blwyddyn, mae'r Ganolfan yn trefnu bod gwahanol gantorian ac artistiaid yn ymweld â'n darparwyr cyrsiau i gynnal gigs. Mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr i fwynhau caneuon poblogaidd a dod i adnabod ein sêr cenedlaethol yn well. Tara Bethan ac Alun Saunders yw'r artistiaid eleni, a phob dymuniad da i'r ddau wrth iddynt berfformio i gynulleidfaedd newydd ledled Cymru.



## Y Gair a'r Gân scheme

The 'Y Gair a'r Gân' (Word and Song) scheme is going from strength to strength. Every year, the Centre arranges for different singers and artists to visit our course providers to hold Welsh-language gigs. This gives learners the opportunity to both enjoy popular songs and get to know some of our national stars better. Tara Bethan and Alun Saunders are this year's artists – best wishes to both as they perform to new audiences across Wales.

## Digwyddiadau

Bydd cyfle i glywed mwy am waith y Ganolfan mewn dau ddigwyddiad corfforaethol sydd ar y gweill. Bydd Cynhadledd Flynyddol y Ganolfan yn cael ei chynnal ar 9 Mai yng Nghaerdydd. Bydd digwyddiad yn y Senedd ar 3 Gorffennaf yn canolbwytio ar rôl y Ganolfan i gynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg. Bydd mwy o fanylion maes o law, ond gallwch archebu lle trwy gysylltu â [swyddfa@dysgucymraeg.cymru](mailto:swyddfa@dysgucymraeg.cymru).

Mae Dona Lewis a Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgwr'r Ganolfan, hefyd yn edrych ymlaen at gyfrannu at gynhadledd ALTE (Association of Language Testers in Europe), sy'n cael ei chynnal yng Nghaerdydd 2-4 Ebrill, dan ofal CBAC.

## Events

There will be an opportunity to hear more about the Centre's work at two upcoming corporate events. The Centre's Annual Conference will be held on 9 May in Cardiff. An event in the Senedd on 3 July will focus on the Centre's role in increasing the Welsh language skills of the education workforce. There will be more details in due course, but you can book your place by contacting [office@learnwelsh.cymru](mailto:office@learnwelsh.cymru).

Dona Lewis and Helen Prosser, the Centre's Director of Teaching and Learning, are also both looking forward to contributing to the ALTE (Association of Language Testers in Europe) conference, which is being held in Cardiff 2-4 April, hosted by the WJEC.

